Dŵr Cymru
Welsh Water

# Datganiad Sicrwydd gan y Bwrdd

## Cynllun Taliadau 2018/19

Mae'r Bwrdd wedi ystyried Cynllun Taliadau 2018/19 mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2017 a 4 Ionawr 2018. Ystyriodd y Bwrdd ddeunyddiau ategol perthnasol a gwnaethpwyd ymholiadau priodol i'r Tîm Gweithredol, yn enwedig i'r Cyfarwyddwr Strategaeth a Rheoleiddio, ac i KPMG (James Ledward) a Jacobs (Andrew McGeoghan) a gafodd eu penodi i roi sicrwydd allanol.

Ar ôl gwneud ymholiadau rhesymol a pherthnasol, gall y Bwrdd gadarnhau, hyd y gwyddom, fod y taliadau yng Nghynllun Taliadau Dŵr Cymru yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau cyfreithiol y mae'r cwmni yn ddarostyngedig iddynt o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i haddaswyd) a deddfwriaeth berthnasol arall, yn eu cyfanrwydd.

Gallwn gadarnhau i gamau priodol gael eu cymryd i sicrhau bod y wybodaeth y mae'r Cynllun Taliadau yn seiliedig arni yn gywir o fewn lefelau rhesymol o oddefiant. Mae'r Cynllun Taliadau a'r wybodaeth ychwanegol ofynnol wedi'u paratoi gan staff profiadol gan ddefnyddio prosesau priodol a systemau rheolaeth fewnol ac yn unol â hynny maent wedi'u paratoi i safon y gellid yn rhesymol ei disgwyl gan ymgymerwr diwyd.

O ystyried 'Rheolau cynllun taliadau a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr o dan adrannau 143(6A) ac 143B Deddf y Diwydiant Dŵr 1991' a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016, rydym o'r farn bod ein taliadau yn gyson â'r gofynion hyn, gan ystyried rheolau'r Cynllun Taliadau yn eu cyfanrwydd.

Mae'r Bwrdd wedi cael gwybodaeth berthnasol am sut y gwnaiff y taliadau newydd effeithio ar filiau cwsmeriaid ar gyfer amrywiaeth o wahanol fathau o gwsmeriaid, a gall gadarnhau nad oes disgwyl i fil unrhyw gwsmer gynyddu mwy na 5%.

Mae'r cwmni wedi ymgynghori â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr mewn ffordd amserol ac effeithiol mewn perthynas â'r cynllun taliadau.

**Alastair Lyons**
Cadeirydd

Ar ran y Bwrdd
4 Ionawr 2018